# DAVIES, BENJAMIN (1814 - 1875), Hebreydd

**Enw:** Benjamin Davies
**Dyddiad geni:** 1814
**Dyddiad marw:** 1875
**Priod:** Eliza Davies (née Try)
**Rhiant:** Silvanus Davies
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** Hebreydd
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** Dafydd Rhys ap Thomas

Ganwyd yn Wernberny ger St Clears, mab i Silvanus Davies, ffermwr. Dechreuodd bregethu 'n 15 oed, ond collodd yn ddiweddarach yr huodledd yn y ddwy iaith a'i nodweddai'n gynnar yn ei yrfa. Bu yn ysgolion Gland  r, 'Forge,' Caerfyrddin, a Rhydyceisiaid, cyn ei dderbyn i Goleg y Bedyddwyr, Bryste (1830). Wedyn bu'n dilyn cyrsiau pellach yn yr ieithoedd Semitaidd yn Nulyn, Glasgow, a Leipzig; yn yr olaf enillodd radd Ph.D. a chyfeillgarwch amryw o Hebreyddion Almaenig nodedig. Dychwelodd yn 1838 ac fe'i hordeiniwyd yn Llundain cyn iddo ymgymryd â'r swyddi academaidd a lanwodd weddill ei oes, sef: (*a*) prifathro cyntaf y Montreal Training College i hyfforddi cenhadon i wladfaoedd Gogledd America (1838-44); (*b*) llywydd ac athro diwinyddiaeth yn Stepney Baptist College, Llundain (1844-7); (*c*) athro ieithoedd Semitaidd yng Ngoleg McGill, Montreal (1847-57); a (*ch*) athro yn yr ieithoedd clasurol a dwyreiniol yn Regent's Park Baptist College (gynt Stepney) (1857-75). Priododd Eliza Try, o Portland, Maine, yn ystod ei arhosiad cyntaf yng Nghanada; bu hi farw o'i flaen, a bu yntau farw 19 Gorffennaf yn nh   ei fab yn Frome.

Ymysg ei weithiau y mae: nodiadau mewn argraffiad newydd o E. Robinson, *Harmony of the Gospels*; cyfraniadau helaeth i *Paragraph Bible* y R.T.S. ac i *Thes. Syr.* Payne-Smith; *Student's Hebrew Grammar* a *Student's Lexicon of the Hebrew Language* wedi eu seilio ar weithiau Almaeneg Roediger a Gesenius. Yng Nghanada golygodd y cyfnodolyn *The Register* (1838-44) i'r Bedyddwyr, ac yn Llundain bu'n aelod o bwyllgor Diwgwyr yr Hen Destament Saesneg.

## Awdur

**Dafydd Rhys ap Thomas**

## Ffynonellau

*Oxford Dictionary of National Biography*

*The Baptist*, 30 Gorffennaf 1875

*The Freeman*, 30 Gorffennaf 1875

*Baptist Handbook*, 1876

*Hanes y Bedyddwyr yn Neheubarth Cymru* (1839), 499-502

C. H. Cooper, *From Stepney to St Giles': The Story of Regent's Park College 1810-1960* (Llundain 1960)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 100334550

Wikidata: Q18559698

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu